

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymdrin â glanhau y tu mewn a'r tu allan i beiriant gwerthu nwyddau, profi'r peiriant, a chwblhau unrhyw ddogfennau perthnasol. Mae'r safon hefyd yn ymdrin â gweithgareddau tebyg ar gyfer peiriannau diodydd, gweithdrefnau ar gyfer llenwi peiriannau gwerthu bwyd oeredig, diodydd a nwyddau tymheredd amgylchynol, a'r dulliau o gyflwyno nwyddau i'w gwerthu.

Pan fyddwch wedi cwblhau'r safon hon byddwch wedi dangos eich dealltwriaeth o'r canlynol, a'ch gallu i'w gyflawni:

- Cynnal a chadw peiriant gwerthu

Cynnal a chadw peiriant gwerthu

**Meini prawf
perfformiad**

Rhaid i chi allu:

1. Ynysu'r cyflenwad trydan yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
2. Dewis cyfarpar a deunyddiau glanhau sy'n briodol i'r dasg a'u paratoi i gael eu defnyddio
3. Gwisgo cyfarpar diogelu personol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
4. Glanhau'r peiriant yn unol â'r amserlen glanhau benodedig
5. Gadael y tu mewn a'r tu allan i'r peiriant yn lân, yn sych a heb farciau
6. Profi'r peiriant gwerthu i sicrhau ei fod yn gweithio fel arfer
7. Cwblhau'r holl gofnodion angenrheidiol
8. Gadael y man yn union o gwmpas y peiriant yn lân, yn daclus a heb sbwriel
9. Ynysu'r cyflenwad trydan yn ddiogel, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
10. Dewis cyfarpar a deunyddiau glanhau sy'n briodol i'r dasg a'u paratoi i gael eu defnyddio
11. Gwisgo dillad diogelwch yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
12. Datgysylltu'r rhannau gweithredol mewnol allweddol i gael eu glanhau
13. Paratoi'r peiriant a'i rannau gweithredol mewnol i gael eu glanhau
14. Glanhau'r peiriant a'i rannau gweithredol mewnol yn unol â'r amserlenni glanhau penodedig a'r gofynion iechyd a diogelwch priodol
15. Gadael y tu mewn a'r tu allan i'r peiriant yn lân, yn sych a heb farciau
16. Cwblhau'r holl gofnodion angenrheidiol
17. Profi'r peiriant gwerthu i sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir
18. Ynysu'r cyflenwad trydan yn ddiogel, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
19. Tynnu allan a gwaredu unrhyw stoc sydd yn y peiriant eisoes ac sydd wedi mynd heibio i'w ddyddiad dod i ben
20. Cyflenwi digon o stoc i ateb y galw, a'i osod yn y lle cywir yn y peiriant
21. Dilyn gweithdrefnau cylchdroi stoc
22. Profi'r peiriant gwerthu i sicrhau ei fod yn gweithio fel arfer
23. Cwblhau'r holl gofnodion angenrheidiol
24. Rhoi'r maint a mathau cywir o eitemau yn y peiriant
25. Arddangos yr eitemau gan ddefnyddio dulliau cyflwyno priodol a fydd yn sicrhau'r gwerthiannau mwyaf posibl o'r peiriant
26. Defnyddio nwyddau amnewid addas yn lle eitemau nad ydyn nhw ar gael
27. Gwneud newidiadau i'r wybodaeth

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. Arferion diogel a hylan i'w dilyn wrth lanhau peiriant gwerthu nwyddau
2. Pam mae'n bwysig gwirio bod y cyflenwad trydan wedi'i ynysu'n ddiogel, os yw'n berthnasol i'r peiriant
3. Pam mae'n bwysig gwisgo dillad diogelwch
4. Pam mae'n bwysig peidio â chymysgu cemegolion
5. Beth yw'r mesurau defnydd priodol ar gyfer y cyfryngau glanhau
6. Pam mae'n bwysig gadael y tu mewn a'r tu allan i'r peiriant yn lân, yn sych a heb farciau
7. Pam mae'n bwysig cadw'r man yn union o gwmpas y peiriant gwerthu'n lân ac yn daclus
8. Pam mae angen dilyn trefnau arferol a dilyniannau gweithio
9. Pam mae'n bwysig rhoi prawf ar y broses werthu
10. Sefyllfaoedd annisgwyl a all godi wrth lanhau peiriant gwerthu nwyddau a sut i ddelio â'r rhain
11. Arferion gweithio diogel a hylan wrth lanhau peiriant gwerthu diodydd
12. Pam mae'n bwysig cadw'r man yn union o gwmpas y peiriant gwerthu'n lân ac yn daclus
13. Pam mae angen dilyn trefnau arferol a dilyniannau gweithio
14. Pam mae'n bwysig gadael y tu mewn a'r tu allan i'r peiriant yn lân, yn sych a heb farciau
15. Sefyllfaoedd annisgwyl a all godi wrth lanhau peiriant gwerthu diodydd a pham maen nhw'n bwysig
16. Arferion gweithio diogel a hylan a all godi wrth lenwi peiriant gwerthu
17. Pa weithdrefnau mae angen eu dilyn os canfyddir namau neu broblemau
18. Pam mae'n bwysig bod y tu mewn i'r peiriant yn lân cyn ei ailstocio
19. Pam mae angen gwneud profion tymheredd
20. Pam mae angen dilyn gweithdrefnau cylchdroi stoc
21. Pa ddogfennau mae angen eu cwblhau'n gywir
22. Beth yw'r amserlenni dyddiol
23. Sefyllfaoedd annisgwyl a pham maen nhw'n bwysig
24. Pam y defnyddir cynlluniau nwyddau
25. Sut y dylid arddangos eitemau i sicrhau'r gwerthiannau mwyaf posibl
26. Pam y dylai newidiadau i wybodaeth fod yn gywir

Cynnal a chadw peiriant gwerthu

Cwmpas/Ystod

1. Deunyddiau glanhau
 - 1.1 glanweithydd
 - 1.2 sterilydd

2. Peiriant (bwyd)
 - 2.1 peiriant bwyd oeredig
 - 2.2 peiriant caniau
 - 2.3 peiriant tymheredd amgylchynol

3. Rhannau gweithredol
 - 3.1 blwch cynhwysion
 - 3.2 yr uned gwneud diodydd
 - 3.3 silindr nwy carbon deuocsid

4. Peiriant (diodydd)
 - 4.1 yn y cwpan / cwdyn / cetrisen / dosbarthwr
 - 4.2 peiriannau diodydd parod
 - 4.3 gwneud diodydd ffres

5. Dulliau arddangos
 - 5.1 gwelededd labeli
 - 5.2 amrywiaeth cynhyrchion

6. Newidiadau i wybodaeth
 - 6.1 cyfrifiadurol / llaw
 - 6.2 gwybodaeth bwydlen
 - 6.3 gwybodaeth prisiau



Cynnal a chadw peiriant gwerthu

Datblygwyd gan	People 1st
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2016
Indicative Review Date	Mawrth 2021
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	People 1st
RCU gwreiddiol	PPL1GEN6
Galwedigaethau perthnasol	Aelod o'r tîm; Gweinydd/Gweinyddes; Staff bar
Cyfes/Set	Lletygarwch - Cyffredinol
Geiriau Allweddol	peiriant gwerthu, nwyddau, gwerthu, nwyddau gwerthu, peiriant, diodydd, cyfarpar